

Tiwtor Cynllun y Conservatoire Iau £33.02 yr awr (*gan gynnwys tâl gwyliau*)

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) yw Conservatoire Cenedlaethol Cymru ac mae'n darparu hyfforddiant seiliedig ar berfformio arloesol i dros 800 o'r actorion, cerddorion, technegwyr llwyfan, cynllunwyr golygfeydd a rheolwyr yn y celfyddydau mwyaf dawnus o dros 40 o wledydd. Mae hefyd yn un o leoliadau celfyddydau mwyaf poblogaidd Caerdydd a bydd yn cynnal dros 500 o berfformiadau cyhoeddus bob blwyddyn. Mae wedi'i leoli mewn adeilad tirnod trawiadol yng nghanol Caerdydd, yn edrych dros barc dinesig godidog sydd ond taith 5 munud ar droed o ganol y ddinas. Mae ei enw da wedi'i sefydlu ar ragoriaeth ac mae'n denu'r doniau gorau oll.

Gyda hanes nodedig o 70 mlynedd o hyfforddiant proffesiynol ym meysydd Cerddoriaeth a Drama, gan gynnwys cael ei raddio'n ysgol ddrama orau'r DU yn nhablau Cynghrair y Guardian nifer o weithiau yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Coleg, dros y degawd diwethaf, wedi sefydlu ei hun yn sefydliad diwylliannol pwysig yng Nghymru, gydag adeiladau rhagorol, partneriaethau arloesol â diwydiant, a rhaglen brysur o ddigwyddiadau. Mae'r Coleg yn meithrin y cenedlaethau nesaf o weithwyr proffesiynol cyfoes, sy'n barod ar gyfer gyrfaoedd rhyngwladol yn y diwydiant.

Rydym yn fan cynhwysol i bawb a chymuned sy'n ffynnu ar barch a dathlu gwahaniaethau. Mae ein henw da wedi'i adeiladu ar ragoriaeth drwy gefnogi ein cyflogeion i ddatblygu'r lefel uchaf o doniau a sgiliau.

Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn chwilio am chwaraewr ac athro Cynllun o'r radd flaenaf i weithio fel rhan o'i Conservatoire Iau a'i gynllun gwersi Cymunedol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus wedi ymrwymo'n llwyr i ysbrydoli cerddorion ifanc a/neu oedolion amatur i gyflawni eu potensial cerddorol llawn a bydd yn gallu cydweithio â myfyrwyr, cydweithwyr a rhieni mewn amgylchedd addysg celfyddydau perfformio prysur.

Mae'r swydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dangos ymrwymiad cryf i weithio gyda phlant a phobl ifanc, y gallu i ysbrydoli a'r sgiliau i weithio'n gydweithredol a rhagweithiol mewn amgylchedd addysg celfyddydau perfformio prysur.

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion ac rydym yn disgwyl i'n holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn.

Swydd rhan amser, barhaol yw hon. Clustnodir eich oriau addysgu i chi.

Os ydych yn ymgeisydd allanol llwyddiannus ar gyfer y swydd hon, fe'ch cyflogir gan Wasanaethau Proffesiynol a Chefnogaeth Cyfyngedig, is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Prifysgol De Cymru, sy'n darparu gwasanaethau i'r Brifysgol a Cholegau. Os ydych yn ymgeisydd mewnol, byddwch yn parhau i gael eich cyflogi gan Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

I gael sgwrs anffurfiol am y swydd cysylltwch â patricia.keir@rwcmd.ac.uk

Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais: 4 Ionawr 2022

Gwnewch gais ar-lein <https://www.rwcmd.ac.uk/who-we-are/staff-vacancies>

Disgrifiad Swydd

Swydd	Tiwtor Cynllun y Conservatoire Iau
Adran	Cyn Coleg
Darparu gwasanaethau i	Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
Gradd a chyflog	£33.02 yr awr (gan gynnwys tâl gwyliau)
Oriau gwaith	Telir fesul awr. Clustnodir oriau addysgu i chi.
Hyd y contract	Parhaol
Adrodd i	Pennaeth y Conservatoire Iau

Diben y Swydd

Mae'r Conservatoire Iau yn rhan ffyniannus o Gonservatoire Cenedlaethol Cymru. Mae'n ganolfan rhagoriaeth ar gyfer hyfforddi cerddorion ifanc dawnus rhwng 8 a 18 oed a, thrwy'r Cwrs Uwch, mae'n cynnig yr unig hyfforddiant o'i fath yng Nghymru, gan drochi myfyrwyr mewn amgylchedd celfyddydau perfformio arbenigol lle gallant elwa gan addysg gerddorol ddwys a chyfannol. Rydym yn chwilio am gerddor ac athro o'r radd flaenaf i weithio fel rhan o'r Conservatoire Iau.

Cyfrifoldebau Allweddol

Mae Tiwtoriaid y Conservatoire Iau a'r Rhaglen Gymunedol yn atebol i Bennaeth yr Adran Cyn Coleg, sy'n rheolwr llinell uniongyrchol iddynt. Mae gofyn i bob aelod staff gynnal eu hunain mewn modd proffesiynol, cydweithredol a hyblyg, yn unol ag anghenion y swydd a'r Coleg.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

Addysgu

- Addysgu a hyfforddi i'r safonau uchaf, gan osod gwaith technegol a repertoire sy'n briodol i oedran, gallu a photensial y myfyrwyr, yn unol ag unrhyw feysydd llafur priodol
- Hyrwyddo datblygiad sgiliau technegol a cherddorol effeithiol, cynghori ar ymarfer effeithlon ac annog dysgu rhagweithiol
- Cofrestru a pharatoi myfyrwyr ar gyfer arholiadau mewnol ac allanol, cyngherddau, datganiadau, clyweliadau ac asesiadau fel sy'n briodol
- Cwblhau adroddiadau cynnydd ysgrifenedig ac ar lafar yn ôl y galw
- Cyfranogi mewn paneli clyweliadau ac asesu yn ôl y galw
- Cyfrannu at ddatblygiad a recriwtiad o fewn yr adran yn ôl y galw
- Cydymffurfio â'r holl weithdrefnau adrannol, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â diogelu, a chyfrannu at ddiwylliant o ddiogelwch a lles ar gyfer pawb yn yr adran

Arall

- Cydweithio'n broffesiynol â myfyrwyr, rhieni/gofalwyr a chydweithwyr
- Mynychu cyngherddau myfyrwyr a chyfarfodydd adrannol yn ôl y galw
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â chais rhesymol Pennaeth yr Adran Cyn Coleg a/neu y Prifathro

Nid yw'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau uchod yn gyfyngol nac yn rhestr gyflawn a bydd gofyn i ddeiliad y

Cyfrifoldebau Allweddol

swydd gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau y gellir yn rhesymol eu disgwyl o bryd i'w gilydd o fewn cwmpas a gradd y swydd.

Amodau Cyffredinol

Rhaid i ddeiliad y swydd dderbyn cyfrifoldeb am sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau'n ymwneud ag lechyd a Diogelwch - gan gynnwys diogelu - yn y gweithle yn cael eu dilyn bob amser.

Rhaid i ddeiliad y swydd ddod yn gyfarwydd â, a chadw at, bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau'r Coleg a rhaid iddo ef neu hi, bob amser, gyflawni ei gyfrifoldebau/chyfrifoldebau gyda sylw dyledus i Ddatganiad Cyfle Cyfartal/ymrwymiad i gydraddoldeb y Coleg.

Manyleb Person

Er mwyn gallu ymgymryd â'r rôl hon yn effeithiol bydd angen i chi fod â'r priodweddau a'r sgiliau allweddol a amlinellir isod. Wrth lenwi eich cais cofiwch wneud yn siŵr eich bod yn dangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf hyn:

1	Ymrwymiad amlwg i gyfrannu at werthoedd craidd y Coleg sef tegwch, urddas a pharch, a dathlu amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant pobl o bob sector o gymdeithas *
2	Gradd(au) berthnasol mewn cerddoriaeth, neu gymhwyster cyfwerth *
3	Profiad proffesiynol profedig yn y maes arbenigol *
4	Profiad sylweddol o addysgu plant a phobl ifanc *
5	Gwybodaeth am arfer addysgu cyfredol yn y maes arbenigol *
6	Cymhwyster addysgu priodol
7	Profiad o addysgu mewn lleoliad cerddoriaeth arbenigol a/neu ar lefel Addysg Uwch
8	Gallu ysgogi ac ysbrydoli *
9	Gallu cyfathrebu'n effeithiol – ar lafar ac yn ysgrifenedig – gan gynnwys rhoi adborth adeiladol *
10	Sgiliau rhyngpersonol da, a gallu gweithio fel rhan o dîm *
11	Sgiliau trefnu da *
12	Gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu ddealltwriaeth o ystyriaethau'r Gymraeg o ystyried safle'r Coleg mewn gwlad ddwyieithog

Iechyd a Diogelwch

Eich cyfrifoldeb chi yw ymgyfarwyddo, a chydymffurfio, â Pholisïau a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch y sefydliad. Rhaid i chi hefyd fod yn gwbl gyfarwydd â'ch cyfrifoldebau iechyd a diogelwch o fewn gweithdrefnau eich adran a gweithredu yn unol â hynny.

Cyfle Cyfartal a'n Cynllun Ymrwymedig i fod yn Hyderus o ran Anabledd - cynnig cyfweiliad

Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi ymrwmo i greu gweithlu amrywiol sy'n adlewyrchu cymdeithas gyfoes yn llawn. Ein nod yw creu amgylchedd cynhwysol lle gall staff fod yn hwy eu hunain a lle caiff pob unigolyn ei drin ag urddas, tegwch a pharch. Rydym yn croesawu ymgeiswyr o amrywiaeth o gefndiroedd a chymunedau, yn arbennig o ran oedran, anabledd, rhywedd, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws

Cyfle Cyfartal a'n Cynllun Ymrwymedig i fod yn Hyderus o ran Anabledd - cynnig cyfweliad

priodasol, bechiogrwydd a mamolaeth, tarddiad ethnig, crefydd neu gred.

Rydym yn gwarantu y bydd pob ymgeisydd sy'n hunan-uniaethu'n anabl neu'n niwrowahanol sy'n dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol yn cael cynnig cyfweliad. Nodir y meini prawf allweddol gyda * yn y fanyleb person uchod.